**Rhif: WG35843**

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Mynd i'r afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid ar Ymyl y Ffordd yng Nghymru

Cydymffurfio â Lefelau Terfyn Nitrogen Deuocsid ar y Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd

Dyddiad cyhoeddi: 21 Medi 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 2 Tachwedd 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Ar 31 Gorffennaf, cyhoeddwyd cynllun atodol dros dro Llywodraeth Cymru i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid ochr y ffordd 2017 - Mynd i'r Afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid ar ymyl y ffordd yng Nghymru. Roedd y cynllun hwn yn cynnwys mesurau posibl i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gwerthoedd terfyn ar gyfer nitrogen deuocsid ($NO_2$) a bennwyd gan y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchynol (2008/50/EC) a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 mewn 5 lleoliad ar rwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd Cymru.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y mesurau terfynol a gynigir ym mhob un o'r 5 lleoliad ar ôl cwblhau ymchwiliadau a modelu trylwyr ddiwedd Awst.

**Sut mae ymateb**

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon.

**Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig**

Ymgynghoriad ar gynllun atodol Llywodraeth Cymru i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau o nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd 2017 – Mynd i'r Afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid wrth Ymyl y Ffordd yng Nghymru

https://beta.llyw.cymru/mynd-ir-afael-chrynodiadau-nitrogen-deuocsid-ar-ymylon-ffyrdd-yng-nghymru

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar gynllun atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau o nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd 2017 – Mynd i'r Afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid wrth Ymyl y Ffordd yng Nghymru

https://beta.llyw.cymru/mynd-ir-afael-chrynodiadau-nitrogen-deuocsid-ar-ymylon-ffyrdd-yng-nghymru

Cynllun atodol dros dro Llywodraeth Cymru i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau o nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd 2017 – Mynd i'r Afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid wrth Ymyl y Ffordd yng Nghymru

https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/airqualitypollution/airquality/?lang=cy

A494 Glannau Dyfrdwy – Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad Cam 3

A483 Wrecsam – Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad Cam 3

A470 Pontypridd – Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad Cam 3

M4 Port Talbot C41-C42 - Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad Cam 3

M4 Casnewydd C25-C26 - Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad Cam 3

ADRODDIAD ASESIAD O'R EFFEITHIAU – Ystyried ymyriadau ar Rwydwaith Cefnffyrdd a Phriffyrdd Llywodraeth Cymru i leihau Nitrogen Deuocsid

**Manylion cyswllt**

Am fwy o wybodaeth:

Cyfeiriad:

Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: Trafnidiaeth.AnsawddAer@llyw.cymru

rhif ffôn: 03000256486 neu
03000259426

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolwr data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â sut maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hwy neu'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â dadansoddiad pellach o ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gellid comisiynu'r gwaith hwn i gael ei wneud gan drydydd parti sydd wedi'i achredu (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn iawn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich enw neu gyfeiriad, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os cyhoeddir eich manylion fel rhan o ymateb yr ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ran o'ch data a gedwir gan Lywodraeth Cymru fel arall yn cael ei gadw am ddim mwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych hawl i'r canlynol:

- gael eich hysbysu o'r data personol sy'n cael ei gadw amdanoch chi a chael mynediad ato
- gofyn i ni gywiro unrhyw beth sy'n anghywir yn y data hwnnw
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data (o dan rai amgylchiadau);
- 'dileu' eich data (o dan rai amgylchiadau);
- symudadwyedd data (mewn rhai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar ddiogelu data.

Am ragor o fanylion ynglŷn â'r wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei dal a'i defnydd, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Manylion Cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Rhagair

Mae mynd i'r afael ag ansawdd aer gwael yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a chaiff hyn ei adlewyrchu yn ein strategaeth genedlaethol – 'Ffyniant i Bawb'. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i greu cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell. Ni ellir gorbwysleisio cyfraniad yr amgylchedd at iechyd da. Mae'r camau gweithredu a gymerwn i wella ansawdd aer yng Nghymru yn chwarae rôl allweddol i gefnogi'r amodau cywir ar gyfer gwell iechyd, llesiant a mwy o weithgarwch corfforol. Byddwn yn lleihau allyriadau ac yn cyflwyno gwelliannau hollbwysig i ansawdd aer drwy gynllunio, seilwaith, rheoleiddio, a mesurau gwybodaeth am iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n weithredol, ochr yn ochr â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, i gefnogi ein hamcan ar y cyd â Llywodraeth y DU i drawsnewid trefi a dinasoedd mwyaf llygredig y DU a'u troi'n fannau trefol glân ac iach, gan gefnogi'r rhai y mae'n effeithio arnynt fwyaf uniongyrchol a sicrhau bod gwneuthurwyr cerbydau yn chwarae eu rhan i wella ansawdd aer y wlad.

Lle bo rhannau o'r rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd ar hyn o bryd yn uwch na gwerthoedd terfyn y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchynol a Rheoliadau Cymru ar gyfer crynodiadau nitrogen deuocsid ($NO_2$) rydym eisoes wedi gweithredu'n bendant i ddiogelu iechyd y cyhoedd drwy weithredu terfynau cyflymder dros dro o 50mya cyn gynted ag y dangosodd ein hymchwiliadau fod gweithredu o'r fath yn arwain at wella ansawdd aer yn syth.

Byddem nawr yn croesawu'ch barn ar y mesurau terfynol arfaethedig i sicrhau cydymffurfiaeth â'r lefelau terfyn a bennwyd gan y Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau ym mhob un o'r 5 lleoliad hyn.

Ken Skates
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

## Y Prif Fater

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar y mesurau terfynol arfaethedig i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gwerthoedd terfyn ar gyfer nitrogen deuocsid ($NO_2$) a bennwyd yn y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchynol (2008/50/EC) a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 ar leoliadau ar y rhwydwaith priffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru lle mae'r modelu ansawdd aer diweddaraf yn dangos bod y lefelau hyn yn uwch ar hyn o bryd na'r lefel a bennir.

2. Mae'r mesurau terfynol arfaethedig wedi eu nodi o astudiaethau Canllaw Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ac y cyfeirir ato uchod. Amcan cyffredinol yr astudiaethau hyn oedd nodi'r mesur neu'r pecyn o fesurau ar gyfer pob lleoliad a fydd:

   (a) yn cyflawni cydymffurfiad â gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd;
   (b) yn gwneud hynny mewn modd sy'n lleihau amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd; ac a fydd
   (c) yn golygu nad posibilrwydd yn unig yw cyflawni cydymffurfiad, ond y canlyniad tebygol.

## Cefndir

3. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gwerthoedd terfyn ar gyfer nitrogen deuocsid ($NO_2$) a bennwyd gan y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchynol (2008/50/EC) a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010. Mae Rheoliadau Ansawdd Aer y Comisiwn Ewropeaidd a Rheoliadau Cymru yn cyfyngu ar lefelau $NO_2$ Mae'r asesiad blynyddol o gydymffurfiaeth â'r lefelau terfyn yn seiliedig ar wybodaeth gan rwydweithiau monitro cenedlaethol y DU a modelau asesu drwy ddefnyddio modelau cenedlaethol a elwir yn fodelau Mapio Hinsawdd Llygredd (PCM). Mae'r asesiad ansawdd aer ar gyfer pob llygrydd yn deillio o gyfuniad o grynodiadau sydd wedi'u mesur a'u modelu.

4. Mae'r crynodiadau $NO_2$ PCM llinell sylfaen a ragwelwyd yn dangos bod lefelau terfyn blynyddol o 40 $\mu g/m^3$ yn ormodol ar y 5 darn canlynol o'r rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd:

   (i) A494 yng Nglannau Dyfrdwy (5.9km);
   (ii) A483 ger Wrecsam (2.6km);
   (iii) M4 rhwng cyffyrdd 41 a 42 (Port Talbot) (5.0km);
   (iv) M4 rhwng cyffyrdd 25 a 26 (Casnewydd) (1.4km); a'r
   (v) A470 rhwng Glan-bad a Phontypridd (4.2km).

   Mae lleoliad a hyd pob gormodiant i'w gweld yn Atodiad 2.

   Darperir crynodiadau $NO_2$ PCM llinell sylfaen a ragwelwyd yn y tabl isod. (Darperir manylion am y dulliau a ddefnyddir ar gyfer modelu allyriadau a rhagamcanion gwaelodlin yn adroddiad technegol y DU. Https://www.gov.uk/government/publications/air-quality-plan-for-nitrogen-dioxide-no2-in -uk-2017)

**Tabl 1: Crynodiadau o $NO_2$ Llinell Sylfaen a Ragwelwyd (amcangyfrif o Gynllun 2017, Gorffennaf 2017) (Mae'r ffigurau mewn teip trwm yn golygu gormodiant o'r lefelau terfyn)**

| Darn o Ffordd | Lleoliad y Safle | Crynodiadau o NO2 Llinell Sylfaen a Ragwelwyd (µg/m3) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2015 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
| **A494 Glannau Dyfrdwy** | Aston Hill | - | **50** | **48** | **46** | **43** | **40** | 38 |
| | Cyff A550 – Cyff A548 | - | **48** | **46** | **44** | **42** | 39 | 37 |
| | Cyff A458 Shotwick Rd | - | **42** | **40** | 38 | 36 | 34 | 32 |
| **A483 Wrecsam** | Wrecsam | - | **41** | 39 | 38 | 36 | 33 | 31 |
| **M4 Cyff 41-42** | Cyff 41-42 | **47** | **45** | **43** | **41** | 39 | 37 | - |
| **M4 Cyff 25-26** | I'r Gorllewin o Afon Wysg | **51** | **48** | **46** | **44** | **42** | 39 | - |
| | I'r Dwyrain o Afon Wysg | **43** | **41** | 39 | 37 | 35 | 33 | - |
| **A470** | Pontypridd | **50** | **48** | **46** | **44** | **42** | 39 | - |
| | Glan-bad | **44** | **42** | **40** | 39 | 37 | 34 | - |

5. Dechreuodd astudiaethau Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ym mis Hydref 2017 i sefydlu'r mesurau sy'n ofynnol ym mhob un o'r 5 lleoliad i sicrhau cydymffurfiaeth â lefelau terfyn $NO_2$ yn unol â’r meini prawf a nodir ym mharagraff 2. Gyda'r nifer fawr o fesurau posib i'w harfarnu (dros 400) a gwaith monitro manwl cysylltiedig ar y traffig ac ansawdd yr aer, cwblhawyd Camau 1 a 2 WelTAG, i leihau'r rhestr hir gychwynnol i restr fer ym mhob lleoliad, cyn gynted ag y bo modd erbyn diwedd Ionawr 2018.

6. Cafodd mesurau a nodwyd yng Nghamau 1 a 2 WelTAG gyda'r potensial i sicrhau cydymffurfiaeth ym mhob un o'r 5 lleoliad eu cynnwys yng Nghynllun Atodol drafft Llywodraeth Cymru a oedd yn destun ymgynghoriad rhwng 25 Ebrill a 19 Mehefin. Gellir gweld y dogfennau ymgynghori gwreiddiol, gan gynnwys Adroddiadau Camau 1 a 2 WelTAG, Adolygiad Effeithiolrwydd, Asesu Effaith ac Ymgynghori - Crynodeb o'r Ymatebion drwy'r ddolen ganlynol:

   https://beta.llyw.cymru/mynd-ir-afael-chrynodiadau-nitrogen-deuocsid-ar-ymylon-ffyrdd-yng-nghymru

7. Oherwydd bod astudiaethau Camau 1 a 2 WelTAG wedi nodi bod gan derfynau cyflymder y potensial i wella ansawdd aer yn syth ym mhob un o'r 5 lleoliad, gweithredwyd terfynau cyflymder 50mya dros dro i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn yr wythnos yn dechrau ar 18 Mehefin.

8. Cyhoeddwyd Cynllun Atodol Dros Dro Llywodraeth Cymru ar 31 Gorffennaf hyd nes y cwblhawyd ymchwiliadau Cam 3 WelTAG yn nodi mesurau terfynol i sicrhau cydymffurfiaeth â lefelau terfyn $NO_2$ yn unol â'r meini prawf a amlinellir ym mharagraff 2. Gellir gweld Cynllun Atodol Dros Dro Llywodraeth Cymru drwy'r ddolen ganlynol:

   https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/airqualitypollution/airquality/?lang=cy

9. Cwblhawyd Cam 3 WelTAG yn unol â’r rhaglen ar ddiwedd mis Awst. Y mesurau terfynol a nodwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â lefelau terfyn $NO_2$ ym mhob lleoliad yw testun yr ymgynghoriad hwn.

## A494 Glannau Dyfrdwy

Mae'r adroddiad dan y teitl A494 Glannau Dyfrdwy - Adroddiad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad Cam 3, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, yn rhoi manylion llawn yr ymchwiliadau i nodi mesurau neu becynnau o fesurau sy'n debygol o gyflawni cydymffurfiad â gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd mewn ffordd sy'n lleihau amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd.

**Crynodeb o'r Mesurau a Arfarnwyd**

| Mesur | Canlyniad | Rheswm dros y canlyniad |
|---|---|---|
| Gorfodi/Gostwng y terfyn cyflymder (50mya) | Mesur tebygol | Cyflymder gweithredu a swm y lleihad mewn $NO_2$ (hyd at 2.8µg/m3) |
| Rhwystrau Ansawdd Aer gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur a gedwir fel rhagofal | Mesur i’w adolygu ar sail canlyniadau monitro |
| Mesurydd Signalau (Rheoli'r Llif) o’r Slipffordd Ymuno tua'r De yn Drome Corner gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur annhebygol | Mae modelu’n awgrymu nad yw'r mesur yn debygol o fod yn effeithiol o ran lleihau crynodiadau $NO_2$ y tu hwnt i'r hyn a gyflawnwyd drwy ostwng cyfyngiadau cyflymder, a gallai hyd yn oed wrthbwyso rhai o fanteision cyfyngiadau cyflymder yn unig. |
| Gwyriadau Amrywiol gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur annhebygol | Mae modelu’n awgrymu nad yw'r mesur yn debygol o fod yn effeithiol o ran lleihau crynodiadau $NO_2$ y tu hwnt i'r hyn a gyflawnwyd drwy ostwng cyfyngiadau cyflymder, a gallai hyd yn oed wrthbwyso rhai o fanteision cyfyngiadau cyflymder yn unig. Yn ogystal, nifer cyfyngedig o lwybrau sydd yn yr ardal y gellid eu hystyried fel rhai addas ar gyfer dargyfeirio traffig i ffwrdd o'r A494. |

**Mesur(au) arfaethedig sy'n debygol o gyflawni cydymffurfiad â gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd mewn modd sy'n lleihau amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd**:

(i) Terfyn Cyflymder dros dro o 50mya – B5125 Cyfnewidfa Dewi Sant (Ffordd Treffynnon) i’r A458 Cyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy (Ffordd Shotwick) ar ffin Cymru/Lloegr (tua. 5.9km)

Cynigir hefyd weithredu pecyn ategol o "fesurau ysgafnach" gyda'r nod o gyfathrebu'r angen am fesurau i wella ansawdd aer a dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad gyrwyr.

Dyddiad Gweithredu Arfaethedig: Eisoes ar waith (Mehefin 2018)

Dyddiad Cydymffurfiaeth Cynharaf gyda Mesur: 2021 (dygwyd ymlaen o 2022)

## A483 Wrecsam

Mae'r adroddiad dan y teitl A483 Wrecsam - Adroddiad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad Cam 3, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, yn rhoi manylion llawn yr ymchwiliadau i nodi mesurau neu becynnau o fesurau sy'n debygol o gyflawni cydymffurfiad â gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd mewn ffordd sy'n lleihau amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd.

**Crynodeb o'r Mesurau a Arfarnwyd**

| Mesur | Canlyniad | Rheswm dros y canlyniad |
|---|---|---|
| Gorfodi/Gostwng y terfyn cyflymder (50mya) | Mesur tebygol | Cyflymder gweithredu a swm y lleihad mewn $NO_2$ (hyd at 4.3µg/m3) |
| Rhwystrau Ansawdd Aer gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur a gedwir fel rhagofal | Mesur i'w adolygu ar sail canlyniadau monitro |
| Gwyriadau Amrywiol gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur annhebygol | Mae modelu'n awgrymu nad yw'r mesur yn debygol o fod yn effeithiol o ran lleihau crynodiadau $NO_2$ y tu hwnt i'r hyn a gyflawnwyd drwy ostwng cyfyngiadau cyflymder, a gallai wrthbwyso rhai o fanteision cyfyngiadau cyflymder yn unig |
| Cau Cyffyrdd gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur annhebygol | Mae modelu traffig cau cyffyrdd yn dangos nad oes gan y rhwydwaith ddigon o gapasiti. Mae cau'r slipffordd ymuno tua'r de ar Gyffordd 6 a'r slipffordd ymuno tua'r gogledd ar Gyffordd 5 yn achosi ciwiau sylweddol sy'n arwain at rwystro'r brif linell. Ystyrir bod hyn yn risg diogelwch annerbyniol, ac felly ni fwriwyd ymlaen â'r mesur. Ni chynhaliwyd modelu Ansawdd Aer ar y sail hon |

**Mesur(au) arfaethedig sy'n debygol o gyflawni cydymffurfiad â gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd mewn modd sy'n lleihau amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd**:

(i) Terfyn Cyflymder dros dro o 50mya – Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) (tua. 2.6km)

Cynigir hefyd weithredu pecyn ategol o "fesurau ysgafnach" gyda'r nod o gyfathrebu'r angen am fesurau i wella ansawdd aer a dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad gyrwyr.

Dyddiad Gweithredu Arfaethedig: Eisoes ar waith (Mehefin 2018)

Dyddiad Cydymffurfiaeth Cynharaf gyda Mesur: 2018 (dim newid)

## A470 Pontypridd

Mae'r adroddiad dan y teitl A470 Pontypridd - Adroddiad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad Cam 3, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, yn rhoi manylion llawn yr ymchwiliadau i nodi mesurau neu becynnau o fesurau sy'n debygol o gyflawni cydymffurfiad â gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd mewn ffordd sy'n lleihau amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd.

### Crynodeb o'r Mesurau a Arfarnwyd

| Mesur | Canlyniad | Rheswm dros y canlyniad |
|---|---|---|
| Gorfodi/Gostwng y terfyn cyflymder (50mya) | Mesur tebygol | Cyflymder gweithredu a swm y lleihad mewn $NO_2$ (hyd at 2.8µg/m3) |
| Rhwystrau Ansawdd Aer gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur a gedwir fel rhagofal | Mesur i'w adolygu ar sail canlyniadau monitro |
| Parth Aer Glân gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur a gedwir fel rhagofal | Mesur i'w adolygu ar sail canlyniadau monitro |
| Gwelliannau Parcio gyda Therfynau Cyflymder 50mya | Mesur a gedwir fel rhagofal | Mesur i'w adolygu ar sail canlyniadau monitro |
| Ceibrau Pellter (i lyfnhau llif) gyda Therfynau Cyflymder 50mya | Mesur annhebygol | Mae modelu'n awgrymu nad yw'r mesur yn debygol o fod yn effeithiol o ran lleihau crynodiadau $NO_2$ y tu hwnt i'r hyn a gyflawnwyd drwy ostwng cyfyngiadau cyflymder, a gallai wrthbwyso rhai o fanteision cyfyngiadau cyflymder yn unig |
| Cau Cyffyrdd gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur annhebygol | Bydd yr holl fesurau cau cyffyrdd yn arwain at gynnydd cyffredinol mewn amlygiad i lygredd aer, gan gynnwys eiddo lle mae crynodiadau yn uwch na'r safonau ansawdd aer |
| Mesurydd Signalau (Rheoli'r Llif) o'r Slipffyrdd Ymuno tua'r De yn Stryd y Bont a Chyfnewidfeydd Glyn-y-bont gyda Therfyn | Mesur annhebygol | Mae modelu'n awgrymu nad yw'r mesur yn debygol o fod yn effeithiol o ran lleihau crynodiadau $NO_2$ y tu hwnt i'r hyn a gyflawnwyd drwy ostwng cyfyngiadau cyflymder, a |

| | | |
|---|---|---|
| Cyflymder 50mya | | gallai wrthbwyso rhai o fanteision cyfyngiadau cyflymder yn unig |
| Gwyriadau Amrywiol gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur annhebygol | Mae sgrinio effeithiau ansawdd aer gwyro traffig o brif lwybr yr A470 yn nodi bod gwyriadau newidiol yn debyg o arwain at gynnydd cyffredinol mewn amlygiad i lygredd aer |

**Mesur(au) arfaethedig sy'n debygol o gyflawni cydymffurfiad â gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd mewn modd sy'n lleihau amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd**:

(i) Terfyn Cyflymder dros dro o 50mya – Cylchfan Glan-bad a Chylchfan yr A4058 ym Mhontypridd (tua 4.2km)

Cynigir hefyd weithredu pecyn ategol o "fesurau ysgafnach" gyda'r nod o gyfathrebu'r angen am fesurau i wella ansawdd aer a dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad gyrwyr.

Dyddiad Gweithredu Arfaethedig: Eisoes ar waith (Mehefin 2018)

Dyddiad Cydymffurfiaeth Cynharaf gyda Mesur: 2019 (dygwyd ymlaen o 2020)

## M4 Port Talbot

Mae'r adroddiad dan y teitl M4 Port Talbot C41-C42 - Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad Cam 3, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, yn rhoi manylion llawn yr ymchwiliadau i nodi mesurau neu becynnau o fesurau sy'n debygol o gyflawni cydymffurfiad â gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd mewn ffordd sy'n lleihau amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd.

### Crynodeb o'r Mesurau a Arfarnwyd

| Mesur | Canlyniad | Rheswm dros y canlyniad |
|---|---|---|
| Gorfodi/Gostwng y terfyn cyflymder (50mya) | Mesur tebygol | Cyflymder gweithredu a swm y lleihad mewn $NO_2$ (hyd at 2.5µg/m3) |
| Ceibrau Pellter (i lyfnhau llif) gyda Therfynau Cyflymder 50mya | Mesur annhebygol | Mae modelu'n awgrymu nad yw'r mesur yn debygol o fod yn effeithiol o ran lleihau crynodiadau $NO_2$ y tu hwnt i'r hyn a gyflawnwyd drwy |

| | | |
|---|---|---|
| | | ostwng cyfyngiadau cyflymder, a gallai hyd yn oed wrthbwyso rhai o fanteision cyfyngiadau cyflymder yn unig |
| Cau Cyffyrdd (ar wahân i Gyffordd 41 tua'r gorllewin ar y slipffordd) gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur annhebygol | Mae modelu'n awgrymu nad yw'r mesur yn debygol o fod yn effeithiol o ran lleihau crynodiadau $NO_2$ y tu hwnt i'r hyn a gyflawnwyd drwy ostwng cyfyngiadau cyflymder, a gallai hyd yn oed wrthbwyso rhai o fanteision cyfyngiadau cyflymder yn unig |
| Cau Cyffyrdd (Cyffordd 41 tua'r gorllewin ar y slipffordd) gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur a gedwir fel rhagofal | Mesur i'w adolygu ar sail canlyniadau monitro |
| Mesurydd Signalau (Rheoli'r Llif) o Slipffyrdd gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur annhebygol | Mae modelu'n awgrymu nad yw'r mesur yn debygol o fod yn effeithiol o ran lleihau crynodiadau $NO_2$ y tu hwnt i'r hyn a gyflawnwyd drwy ostwng cyfyngiadau cyflymder, a gallai hyd yn oed wrthbwyso rhai o fanteision cyfyngiadau cyflymder yn unig |
| Gwyriadau Amrywiol gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur a gedwir fel rhagofal | Mesur i'w adolygu ar sail canlyniadau monitro |

**Mesur(au) arfaethedig sy'n debygol o gyflawni cydymffurfiad â gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd mewn modd sy'n lleihau amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd**:

Terfyn Cyflymder o 50mya – O ddiwedd y terfyn cyflymder 50mya presennol ger Cyffordd 41 (Baglan) i Gyffordd 42 (tua. 5.0km)

Cynigir hefyd weithredu pecyn ategol o "fesurau ysgafnach" gyda'r nod o gyfathrebu'r angen am fesurau i wella ansawdd aer a dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad gyrwyr.

Dyddiad Gweithredu Arfaethedig: Eisoes ar waith (Mehefin 2018)

Dyddiad Cydymffurfiaeth Cynharaf gyda Mesur: 2019 (dygwyd ymlaen o 2020)

## M4 Casnewydd

Mae'r adroddiad dan y teitl M4 Casnewydd Cyffyrdd 25-26 - Adroddiad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Adroddiad Cam 3, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, yn rhoi manylion llawn yr ymchwiliadau i nodi mesurau neu becynnau o fesurau sy'n debygol o gyflawni cydymffurfiad â gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd mewn ffordd sy'n lleihau amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd.

**Crynodeb o'r Mesurau a Arfarnwyd**

| Mesur | Canlyniad | Rheswm dros y canlyniad |
|---|---|---|
| Gwyriadau Amrywiol gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur tebygol | Cyflymder gweithredu a swm y lleihad mewn $NO_2$ (hyd at 1.6µg/m3) |
| Gorfodi/Gostwng Terfyn Cyflymder (50mya) yn unig | Mesur annhebygol | Mae modelu'n awgrymu bod y mesur yn annhebygol o fod mor effeithiol o ran lleihau lefelau $NO_2$ o'i gymharu â chyfuno hynny â Gwyriadau Newidiol (hyd at 0.9µg/m3) |
| Parth Aer Glân gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur a gedwir fel rhagofal | Mesur i'w adolygu ar sail canlyniadau monitro |
| Cau Cyffyrdd gyda Therfyn Cyflymder 50mya | Mesur annhebygol | Mae'r mesur yr un mor effeithiol â'r pecyn Gwyriad Newidiol, ond mae'n cynnwys rhagor o anfanteision o ran mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau a newidiadau i amseroedd teithio yn enwedig. |

**Mesur(au) arfaethedig sy'n debygol o gyflawni cydymffurfiad â gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd mewn modd sy'n lleihau amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd**:

(i) Terfyn Cyflymder 50mya dros dro y tu allan i oriau brig a rhwng oriau brig – I'r Dwyrain o Gyffordd 25 (Ffordd Caerllion) i Gyffordd 26 Malpas (tua 1.4km)

(ii) Gwyriad Newidiol – annog traffig lleol ar gyfer Casnewydd i adael yr M4 cyn Cyffyrdd 25 a 26 ar adegau pan fydd crynodiadau uchel o $NO_2$ yn debygol.

Cynigir hefyd weithredu pecyn ategol o "fesurau ysgafnach" gyda'r nod o gyfathrebu'r angen am fesurau i wella ansawdd aer a dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad gyrwyr.

Dyddiad Gweithredu Arfaethedig: Gweithredu'r terfyn cyflymder cychwynnol o 50 mya y tu allan i oriau brig (Mehefin 2018). Gweithredu'n llawn y tu allan i oriau brig a rhwng oriau brig erbyn Rhagfyr 2018.

Gwyriad newidiol erbyn Rhagfyr 2019

Dyddiad Cydymffurfiaeth Cynharaf gyda Mesur: 2021 (dim newid)

## Symud Ymlaen

10. Mae effaith y mesurau ar grynodiadau $NO_2$ ym mhob un o'r 5 lleoliad yn cael ei monitro gan diwbiau tryledìad ar hyn o bryd a'r bwriad yw ategu'r rhain gyda phroses o fonitro parhaus drwy ddefnyddio dadansoddwyr dull cyfeirio erbyn y Flwyddyn Newydd.

11. Mae'r mesurau arfaethedig a amlinellwyd uchod yn debygol o gyflawni cydymffurfiad â gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd mewn modd sy'n lleihau amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd mewn perthynas â'r crynodiadau $NO_2$ a ragwelir gan PCM ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn dibynnu ar ganlyniadau monitro mesurau pellach (y "Mesurau a gedwir fel rhagofal" sydd yn y tablau cryno uchod), mae’n bosibl y bydd gofyn eu gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r Gyfarwyddeb a'r Rheoliadau.  Bydd y rhain yn destun adolygiad parhaus ac ymgynghoriad pellach os bydd angen.

Atodiad 1

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cyn ateb y cwestiynau a ganlyn, ystyriwch yr wybodaeth a ddarperir yn y ddogfen ymgynghori hon ac Adroddiadau Cam 3 WelTAG ar gyfer pob un o'r 5 lleoliad, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn

1. A ydych chi'n cytuno y bydd y mesur(au) a nodwyd yn cydymffurfio â'r gwerthoedd terfyn $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd?
2. A ydych chi'n cytuno y bydd y mesur(au) a nodwyd yn cydymffurfio mewn modd sy'n lleihau'r amlygiad i $NO_2$ cyn gynted ag y bo modd?
3. A ydych chi'n cytuno bod y mesur(au) a nodwyd yn debygol o gyflawni cydymffurfiaeth yn y modd hwnnw?
4. A ydych chi'n anghytuno mewn unrhyw fodd? Os felly, pam?
5. A ydych chi o'r farn y dylid cynnwys unrhyw fesur neu becyn o fesurau eraill yng Nghynllun Atodol Terfynol Ansawdd Aer Cymru; beth yw'r mesurau hynny, a pham y dylid eu cynnwys?
6. A oes gennych chi sylwadau eraill yr hoffech chi eu gwneud?

Cyflwynwch eich ymateb

Rydych ar fin cyflwyno'ch ymateb. Gwnewch yn siŵr eich fod yn hapus gyda'ch atebion cyn danfon.

Enw:
Sefydliad (os yn berthnasol):

Er mwyn gallu rhoi derbynneb i'ch ymateb, rhowch gyfeiriad e-bost dilys.


Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.

Cadw fy ymateb yn ddienw.

Atodiad 2


## Lleoliadau ar y Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd
## Sy'n uwch na Lefelau Terfyn Blynyddol $NO_2$

A494 Glannau Dyfrdwy





© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874.
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.

# A483 Wrecsam





© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874.

# A470 Pen-bad i Bontypridd





© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874.

M4 Cyffyrdd 41 i 42 Port Talbot



© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874.

# M4 Cyffyrdd 25 i 26




© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874.